Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Ychydig ddyddiau wedi i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf, fe ddaeth y newyddion trist am farwolaeth Mr Elwyn Tudor (Henllan), un oedd mor driw i'w deulu ac a gyfrannodd yn helaeth i ardal eang. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â chi, Dyfyr, ac â'r merched Lona Tudor Jones (Cefn Meiriadog) a Marian Davies a'ch teuluoedd yn eich profedigaeth. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich hiraeth, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Yr un modd, cydymdeimlwn ag Eleri Evans (Henllan) a'r teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli tad Eleri, sef Glyn Roberts, Rhuthun; hefyd Beryl M. Evans (Cefn Meiriadog) a'r teulu yn eich profedigaeth o golli chwaer Beryl, sef Delyth Jones, gynt o Bontuchel; ac Eifion M. Jones (Llansannan) a'r teulu yn eich profedigaeth o golli brawd Eifion, sef Selwyn Jones oedd yn byw yn Elsing, Norfolk. Cyflwynwn bob un ohonoch i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddïwn y bydd Duw yn cysgodi drosoch.

Parhawn i gofio'n annwyl am y cleifion yn ein plith. Cofiwn yn arbennig am Emlyn Davies (Llansannan) sy'n cael gofal am ychydig ddyddiau yn San Cyndeyrn, Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, Richard M. Jones (Cefn Berain) sydd bellach yn Ysbyty Rhuthun yn dilyn treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Clatterbridge. Cyflwynwn y pedwar ohonoch i ofal yr Arglwydd gan weddïo y byddwch yn adnabod daioni Duw yn eich amgylchynu. Cofiwn am eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar hefyd a dymunwn adferiad iechyd buan iawn i chi.

Llongyfarchiadau i Rhiannon Johnson (Llannefydd) ar ei dyweddïad â James Tilley. Dymunwn fendith Duw ar eich perthynas.

Yr un yw'n llongyfarchion i William ac Oswen Davies (Llanfair) oedd yn dathlu 50 mlynedd o briodas ganol mis Awst, a hefyd John a Gwenfyl Jones (Llansannan) sydd newydd ddathlu 60 mlynedd o briodas. Gobeithio y byddwch chi'n profi blynyddoedd lawer eto o iechyd a hapusrwydd yng nghwmni eich gilydd.

Dymunwn yn dda i Daniel Mars-Jones (Hiraethog) a Sarah Sheehan fydd yn priodi ddechrau mis Medi. Gweddïwn y cewch ddiwrnod cofiadwy, ac y byddwch yn profi bendithion lu yn eich bywyd priodasol.

Rwy'n siŵr ein bod hefyd am ddymuno'n dda i Rhodri (ein cyn-weinidog) a Gwenno, Llio a Lleucu sydd newydd symud i fyw yr wythnos hon. Gweddïwn y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd ym Mangor ac y daw cyfle yn achlysurol i'ch croesawu'n ôl i Fro Aled!

Bu i mi gyfeirio yn y rhifyn diwethaf at wasanaeth Mr Trebor Roberts (Llansannan) fel blaenor yn yr Henaduriaeth a sylwi wedyn nad oeddwn wedi nodi'r nifer cywir o flynyddoedd – mae Trebor wedi rhoi 60 mlynedd o wasanaeth, nid 50 fel y nodais i. Diolch o galon i chi Trebor ac ymddiheuriadau am y llithriad!

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3 Medi 2023

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

Mentro o'r Newydd

Pa mor barod ydach chi i ddysgu rhywbeth newydd? Mae llawer iawn yn dweud eu bod yn rhy hen i ddysgu rhywbeth newydd, boed yn iaith neu grefft neu feistroli rhyw declyn cyfrifiadurol. Ar y cyfan, rydym yn araf iawn i newid ein ffyrdd am ein bod yn ofni'r newydd a'r newid. Ar adegau, mae rhai ohonom yn ceisio dysgu ein hunain yn hytrach na chydnabod ein hangen a gofyn am help un sy'n gwybod. Mae agwedd fel hyn yn arwain at golli allan ar brofiadau newydd fyddai'n cyfoethogi ac yn hwyluso bywyd. Gall hyn fod yn wir gyda'n bywyd ysbrydol hefyd. Gallwn golli cyfle i brofi bendithion adnabod y Gwaredwr a phrofi heddwch a dedwyddwch y bywyd Cristnogol trwy wrthod cymryd ein dysgu.

Mae plant, ar y llaw arall, yn sugno gwybodaeth newydd yn rhwydd ac yn gallu addasu yn llawer haws. Mae plentyn yn fwy parod i ofyn am help pan fo angen. Mae Iesu Grist yn ein gwahodd yn y Gair i gymryd agwedd plentyn. "Galwodd (Iesu) blentyn bach ato, a'i osod yn y canol o'u blaenau, ac yna dwedodd: "Credwch chi fi, os na newidiwch chi i fod fel plant bach, fyddwch chi byth yn un o'r rhai mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau."(Mathew 18:2-3) Mae'n ein galw ato i gael ein dysgu a'n trawsnewid ganddo fel ein bod yn darganfod ffordd sy'n rhoi tangnefedd a gorffwys i ni. "Dewch ata i, bawb sy'n cael eich llethu gan feichiau trwm, a rhof i orffwys i chi." (Mathew 11:28) Galw arnom i adael iddo ef ein hyfforddi a'n newid a wna'r Arglwydd.

Gwelwn lawer eisiau bod yn heini ond eto ddim yn barod i ildio i ddisgyblaeth hyfforddwr ymarfer corff. Does dim gorffwysfa ysbrydol i ni heb i ni ildio i gael ein dysgu gan Iesu Grist am ffordd ffydd. Does dim gorffwysfa heb wrando ac ymateb iddo. Nid beichio bywyd a wna'r Arglwydd Iesu ond gwneud bywyd yn haws ac yn llawnach. "Dewch gyda mi o dan fy iau, er mwyn i chi ddysgu gen i. Dw i'n addfwyn ac yn ostyngedig, a chewch chi orffwys. Mae fy iau i yn gyfforddus a dw i ddim yn gosod beichiau trwm ar bobl." (Mathew 11:29-30) Dyma dymor newydd a chyfle i fentro o'r newydd i ddyfnhau ein hadnabyddiaeth o Iesu Grist a phrofi mwy o fendithion ei gwmni.

Y Parch. Robert O. Roberts

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Medi 3ydd

Bore Bro Aled: 'Bodlon yng Nghrist'

Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth

yn Saron am 10:30

yng nghwmni nifer o ieuenctid yr Ofalaeth,

a rhai ychydig bach hŷn!

Yn dilyn yr oedfa (os bydd y tywydd yn ffafriol), bydd cyfle i fynd am dro, felly dewch â phicnic ac esgidiau addas hefo chi. Cawn fwyta ein picnic cyn i ni gychwyn am dro – bydd paned wedi ei pharatoi ar ein cyfer yn y Festri, diolch i gyfeillion Capel Saron.

Dydd Mawrth, Medi 5ed

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y prynhawn. Edrychwn ymlaen i gael cwmni Derry o'r Gwasanaeth Tân. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Medi 10fed

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Dr Owain Edwards. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa ac Ysgol Sul yn Henllan am 10:30.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad Mr Dewi Williams.

Dydd Mawrth, Medi 12fed

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.
- **Sesiwn codi ymwybyddiaeth am Ddementia (Golud) –** Menter gan Gymdeithas Alzheimer yw hon sy'n rhoi cyfle i bobl ddeall am ddementia a dysgu am y pethau bychain y medrir eu gwneud i greu gwahaniaeth. Fe all dementia, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, gyffwrdd bywydau pob un ohonom, felly croeso i bawb ohonoch i'r sesiwn gwerthfawr hwn fydd yn cael ei gynnal yn Llansannan am 7:30 yr hwyr.

Dydd Sul, Medi 17eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd.
- **Cyfarfod Gweddi yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00.
- **Oedfa'r Fro** yn Llannefydd am 6:00 yr hwyr gydag Eryl Davies yn arwain a'r Parch. Dewi Tudur yn pregethu.

Baby Basics Dyffryn Clwyd

Mae cangen Dyffryn Clwyd o elusen Baby Basics UK wedi bodoli ers tair blynedd a mwy bellach ac maen nhw'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r elusen hyd yn hyn. Ar hyn o bryd maen nhw'n brin iawn o ddillad babi 3–6 mis oed, ac mae cais arbennig hefyd am flancedi babi – rhai wedi eu gweu neu grosio, neu rai *cellular* neu *fleece*. Os oes gennych rai i sbario, neu os oes gennych awydd prosiect dros y penwythnos, mi fydden nhw'n ddiolchgar iawn! Mae Baby Basics yn rhentu uned ger y ganolfan ailgylchu yn Stad Colomendy – Uned B10, Trem y Dyffryn, LL16 5TX. Mae'r uned ar agor yn gyson bob bore Mercher neu cysylltwch â Mair wnaiff drefnu i gasglu eich rhoddion. Diolch yn fawr!

Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd

Cynhelir cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn nos Fawrth, Medi 19eg am 7:00 yr hwyr yng nghwmni Cefyn Burgess a'r Parch. Aneurin Owen. Bydd cyfle i gael paned a sgwrs ar ddiwedd y cyfarfod. Croeso cynnes i bawb.

Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2023-24

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2023-24 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i Mair **erbyn dydd Sul, Medi 24ain,** os gwelwch yn dda. Pris: £2.00.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (13eg), os gwelwch yn dda.